Cenn@d

RHAGFYR 1 2021 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 40

# Cyflwyno Medalau Gee yn Wrecsam, Llandysul a Rhydaman

## Cyflwyno tair medal Gee yn Wrecsam



(o'r chwith i'r dde) Llinos Powell Jones, Aled Davies, Gwenfron Jones, Aled Lewis Evans a Brenda Gibson

Yn ystod mis Hydref cynhaliwyd cyfarfod arbennig yng Nghapel y Groes / Ebeneser, Wrecsam, a hynny er mwyn anrhydeddu tair o ffyddloniaid yr ysgol Sul sydd wedi rhoi oes o wasanaeth yn dysgu a hyfforddi cenedlaethau o blant ac ieuenctid.

Daeth nifer dda o deulu a ffrindiau ynghyd i gyfarfod arbennig yn y capel, ac wedi croeso a defosiwn gan weinidog yr eglwys, y Parch Aled Lewis Evans, trosglwyddwyd yr awenau i Aled Davies o Gyngor yr Ysgolion Sul. Cafwyd cyflwyniad byr am gyfraniad y tair a fyddai'n derbyn y medalau gan y gweinidog, a dystiodd i oes o ymroddiad yn cynnal digwyddiadau di-ri i genedlaethau o blant. Yn derbyn medalau yr oedd Brenda Gibson, Gwenfron Jones, a Llinos Powell Jones, y tair yn aelodau hynod weithgar a ffyddlon yng Nghapel y Groes ac Ebeneser, Wrecsam. Fe ddaethon nhw ymlaen yn eu tro i dderbyn eu medalau, a braf oedd gweld wyrion ac wyresau'n bresennol fel rhan o'r seremoni.

Wedi gair o weddi i gloi gan y gweinidog, cafwyd cyfle i fynd drwodd i'r festri lle roedd gwledd o ddanteithion yn ein disgwyl. Llongyfarchiadau mawr i Brenda, Gwenfron a Llinos, a diolch iddynt am eu cyfraniad mawr i waith ysgolion Sul yn ardal Wrecsam.

## Yr eglwyswraig gyntaf i dderbyn medal Gee



Braint arbennig i Gyngor yr Ysgolion Sul oedd cael cyflwyno medal Gee, a hynny am y tro cyntaf erioed, i un a fu'n weithgar ym maes ysgolion Sul a chenhadaeth i blant o blith aelodau'r Eglwys yng Nghymru. Bu Vera Lewis o Landysul yn hynod weithgar yn lleol a hefyd yn rhinwedd ei swydd fel trefnydd gwaith plant Esgobaeth Tyddewi am flynyddoedd lawer. Gwnaeth gyfraniad nodedig drwy gynnal ysgol Sul yn ffyddlon am ddegawdau yn eglwys Llandysul, gan ymroi yn ogystal i gefnogi gwaith plant ar hyd yr esgobaeth gyfan. Braint oedd cael cyflwyno medal Gee i Vera am ei hymroddiad diflino dros achos Iesu Grist.

## Cyflwyno medal Gee yn Rhydaman



Pleser arbennig oedd cael cyflwyno medal Gee i Mrs Bethan Thomas, Tŷ-croes, Rhydaman, a hynny am oes o wasanaeth i waith yr ysgol Sul yng Ngellimanwydd. Bu Bethan yn athrawes ac yn arolygwr, a bu'n weithgar yn paratoi cenedlaethau o blant i gymryd rhan mewn gwasanaethau yn y capel. Fel athrawes brofiadol, bu ei hymroddiad i'r ysgol Sul yn nodedig, gan gyflwyno'r Efengyl i gannoedd o blant ar hyd y blynyddoedd.

Mae Bethan yn briod ag Elfryn Thomas, a fu'n rheolwr Gwasg John Penri am flynyddoedd lawer, ac yntau yn ei dro yn argraffu gwerslyfrau'r ysgol Sul dros nifer fawr o flynyddoedd. Mae ein diolch fel Cyngor yn fawr iddo am gydweithio hapus yn cyhoeddi llyfrau Cristnogol ar gyfer pob oed a chyfresi o werslyfrau i ysgolion Sul. Cyn sefydlu Cyhoeddiadau'r Gair yn 1992, roedd Cyngor yr Ysgolion Sul yn cydweithio'n agos â dwy wasg er mwyn sicrhau cyflenwad o werslyfrau, sef Gwasg John Penri a Gwasg Pantycelyn (a newidiodd yn Wasg y Bwthyn yn ddiweddarach). Trist yw nodi nad yw'r ddwy wasg bellach yn argraffwyr, ond rydym yn falch o ddeall y bydd Gwasg y Bwthyn yn parhau i gyhoeddi llyfrau yn y Gymraeg

Sylw o'r Seidin
Wele fi yn dyfod
Tudalen 3

Y gair yn dal i ddisgleirio
Tudalen 5

Pryder cynyddol am hawliau dynol a diogelwch ym Mhalesteina
Tudalen 6